# JONES, ROBERT THOMAS (1874 - 1940), arweinydd Llafur



**Enw:** Robert Thomas Jones
**Dyddiad geni:** 1874
**Dyddiad marw:** 1940
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arweinydd Llafur
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** David Thomas

Ganwyd yn Blaenau Ffestiniog, 14 Hydref 1874. Bu'n ysgrifennydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, 1908-33 - y chwarelwr cyntaf a ddewiswyd yn ysgrifennydd yr undeb - ac yn aelod seneddol dros sir Gaernarfon, 1922-3. Yr oedd yn aelod o'r ddirprwyaeth frenhinol ar fwynfeydd metel a chwareli, 1910-4, o gyngor cyffredinol y Trades Union Congress, 1921-32, a lliaws o fyrddau cyhoeddus yng Nghymru. Llwyddodd i gael gwell dealltwriaeth rhwng y chwarelwyr a'u cyflogwyr, ac enillodd ' Siarter y Chwarelwyr,' yn darparu isrif cyflogau, hyfforddiant i brentisiaid, etc. Hyrwyddodd sefydlu dosbarthiadau'r brifysgol ymysg y chwarelwyr. Bu farw 15 Rhagfyr 1940 yng Nghaernarfon.

## Awdur

**David Thomas**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


*Who's who in Wales*, 1920

Owen Parry, *Undeb y Chwarelwyr, 1908-1929* (Caernarfon 1929)

*Yr Herald Cymraeg a'r Genedl*, 23 Rhagfyr 1940


## Darllen Pellach

Archifau LlGC: Etholiad Seneddol Sir Gaernarfon. R. T. Jones, yr Ymgeisydd Llafur.

Archifau LlGC: Etholiad Seneddol Sir Gaernarfon. R. T. Jones, yr Ymgeisydd Llafur.

Archifau LlGC: Etholiad Seneddol Sir Gaernarfon, 1924. R. T. Jones, yr Ymgeisydd Llafur.

Archifau LlGC: Beth am Rwsia. Votiwch i R. T. Jones.

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7350344

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu